



**Gwybodaeth ategol ar gyfer
Amcangyfrif Incwm a Threuliau
Archwilio Cymru ar gyfer y
flwyddyn a ddaeth i ben ar 31
Mawrth 2023**

Hydref 2021

Cynnwys

Trosolwg o Amcangyfrif 2022-23	3
Crynodeb o'r amcangyfrif	3
Ein perfformiad hyd yma	4
Arbedion yn y dyfodol	6
Pwysau cost	7
Cyllid	9
Ariannu Archwilio Cymru	9
Gwaith archwilio wedi'i ariannu gan Gronfa Gyfunol Cymru	11
Cyfraniad Cronfa Gyfunol Cymru at gostau gweithredu	12
Cyllid Cronfa Gyfunol Cymru er budd ehangach y sector cyhoeddus	12
Gwaith archwilio wedi'i ariannu o ffioedd	14
Buddsoddiad cyfalaf yn Archwilio Cymru	15
Ein Rhaglen Newid	15
Ein Strategaeth TGCh	16
Chwyddiant cyflogau a phrisiau	17
Recriwtio a chadw staff	17
Teithio a chynhaliaeth	17
Newidiadau posibl i'r gyllideb hon	17
Incwm o ffioedd	18
Safonau adrodd newydd	18
Gwaith Archwilio Perfformiad Lleol	19
Ystyriaethau y dyfodol	19

Crynodeb o'r amcangyfrif

Trosolwg o Amcangyfrif 2022-23

Ein Cyllideb 2022-23

- 1 Gyda'r Amcangyfrif hwn rydym yn gofyn am gynyddu o 3.1% i'n galwad gyffredinol ar gyllid Cronfa Gyfunol Cymru yn 2022-23, ar ôl caniatáu ar gyfer mwy o fuddsoddiad a'r cynnydd ariannol bob dwy flwyddyn ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol fel y nodir yn **Arddangosyn 1**. Mae ein cyllideb fanwl ar gyfer y flwyddyn i'w gweld yn **Atodiad 1**.
- 2 Ariennir yr holl fuddsoddiad cyfalaf o Gronfa Gyfunol Cymru drwy'r Amcangyfrif hwn. Rhagwelodd ein Hamcangyfrif ar gyfer 2021-22 fuddsoddiad cyfalaf mawr ar gyfer 2022-23 oherwydd symudiad disgwylidiedig o'n swyddfa yng Nghaerdydd. Rydym wedi penderfynu gohirio hyn am flwyddyn wrth i ni geisio datblygu ein harferion gwaith a'n gofynion rhanddeiliaid ar ôl COVID. Ceir rhagor o fanylion ym **mharagraffau 11 i 13 a 61 i 64**.

Arddangosyn 3: newidiadau yn ein galwad ar Gronfa Gyfunol Cymru 2021-22 i 2022-23

	Cyllid £'000	Cyfalaf £'000	Cyfanswm £'000
Cronfa Gyfunol Cymru 2021-22	7,798	350	8,148
Newidiadau ar gyfer 2022-23			
Cost uwch gwaith archwilio	74		74
Mwy o ofynion Ansawdd Archwilio	80		80
Amser teithio staff	70		70
Cynnydd mewn yswiriant gwladol	51		51
Cyfraniad at gostau gweithredu	15		15
Cynnydd 2022-23	290	(40)	250
Y Fenter Twyll Genedlaethol	210	–	210
Cyfanswm Cronfa Gyfunol Cymru 2022-23	8,298	310	8,608

Ein perfformiad hyd yma


- Yn Archwilio Cymru, rydym yn ymdrechu'n barhaus i ddarparu archwiliad cyhoeddus o'r radd flaenaf i sector cyhoeddus Cymru yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol.
- Ers 2013-14, rydym wedi lleihau cost archwilio cyhoeddus yng Nghymru 11% mewn termau real¹ er gwaethaf cynnydd yng nghwmpas ein gwaith, mwy o ofynion ar gyfer ansawdd archwilio a chynnydd yn nifer yr archwiliadau y mae'n rhaid i ni eu cynnal. Cynrychiolir hyn yn **Arddangosyn 1**. Mae'r arbedion cronus a gynhyrchwyd ar draws y blynyddoedd hynny yn cyfateb i bron i £26 miliwn.

1 Yn seiliedig ar dachwyddwyr CMC a gyhoeddwyd gan SYG, Gorffennaf 2021.

5 Rydym wedi cyflawni'r gostyngiad hwn drwy:

- newid ffurf ein gweithlu yn sylweddol – buddsoddi mewn rhaglen hyfforddi i raddedigion i ddarparu cyfleoedd i raddedigion yng Nghymru yn ogystal â darparu rheolwyr ariannol ar gyfer sector cyhoeddus Cymru yn y dyfodol. Yn 2013-14, roedd Cyfarwyddwyr a Rheolwyr yn cyfrif am 24% o'n gweithlu. Erbyn 2021-22 mae hyn wedi gostwng i 17%.
- cyrchu ein gwaith archwilio yn fewnol. O 2021-22 nid ydym bellach yn defnyddio cwmnïau'r sector preifat i wneud ein gwaith archwilio. Mae hyn wedi ein galluogi i gynnal ansawdd yr archwiliad, wrth elwa ar arbedion maint yn ogystal â'n diogelu rhag cynnydd mewn prisiau ar gyfer y gwaith hwn y mae asiantaethau archwilio eraill yn y DU yn eu profi.
- defnyddio technoleg a dadansoddeg data i wneud ein gwaith archwilio mor effeithlon â phosibl a lleihau ein teithio ledled Cymru.

Arddangosyn 1: cost archwiliad cyhoeddus 2013-14 i 2022-23



Arbedion yn y dyfodol

- 6 Mae ein Hamcangyfrif ar gyfer 2022-23 yn ei gwneud yn ofynnol i ni wneud arbedion o dros £1.4 miliwn yn ystod y flwyddyn i gydbwysu'r gyllideb; mae hyn yn cynnwys £940,000 o arbedion o drosiant staff disgwylidig a £500,000 arall o arbedion o ostyngiadau eraill mewn costau gan gynnwys teithio a chynhaliaeth.

Teithio a chynhaliaeth

- 7 Yn ystod 2020-21, ac mewn ymateb i adolygiad gwerth am arian a gynhaliwyd gan RSM UK LLP, sefydlodd y Bwrdd grŵp 'gorchwyl a gorffen' staff i ystyried sut yr ydym yn disodli'r lwfans teithio blynyddol a delir i'n staff symudol gydag ad-daliad mwy cost-effeithiol a chynaliadwy ar gyfer teithio gan staff.
- 8 Mewn ymateb i argymhellion y Grŵp, mae'r Bwrdd ar hyn o bryd yn ymgynghori ag Undebau Llafur a staff ar y trefniadau pontio wrth i ni ddileu'r lwfans teithio o 2024-25. Byddwn yn gofyn i'r Pwyllgor Cyllid ystyried Amcangyfrif Atodol ar gyfer 2021-22 er mwyn gallu prynu'r lwfans teithio yn gynnar. Os caiff ei gefnogi, bydd hyn yn ein galluogi i gyflawni arbedion yn gynharach nag a fyddai wedi digwydd fel arall.
- 9 Nid yw ein cyllideb fel y'i nodir yn **Atodiad 1** yn rhagdybio unrhyw ostyngiad yn y lwfans teithio yn 2022-23 gan fod y cyfnod ymgynghori staff yn dal i fod ar agor. Bydd unrhyw gytundeb ar swm i adael yn gynnar yn arwain at arbedion posibl a allai arwain at ostyngiad yn y swm sy'n ofynnol gan Gronfa Gyfunol Cymru yn ystod y flwyddyn. Os yw hyn yn arwyddocaol, byddwn yn cyflwyno Amcangyfrif Atodol yn ystod 2022-23 i leihau ein cyllideb yn unol â hynny.
- 10 O ystyried ein profiad o weithio drwy bandemig COVID, rydym hefyd yn disgwyl gweld gostyngiad cyffredinol yn y teithio sydd ei angen i gyflawni ein gwaith archwilio. Mae'r patrwm ar gyfer hyn yn dal i esblygu a bydd angen i ni weithio'n agos gyda'n cyrff archwiliedig dros y flwyddyn i ddod i sefydlu model sy'n gweithio i bawb dan sylw. Rhagwelwyd rhai arbedion ar gyfer 2022-23 ond credwn fod lle i arbedion yn y dyfodol wrth i batrymau gwaith newydd ddod ymwreiddio.

Ein swyddfeydd

- 11 Dechreuwyd prosiect mawr i adolygu ein gofynion o ran llety swyddfa yn 2019, cyn pandemig COVID. Mae'r gofyniad i'n holl staff weithio o bell o fis Mawrth 2020 wedi rhoi cyfle i ni ail-feddwl yn sylfaenol sut y bydd ein gweithleoedd yn edrych yn y dyfodol.

- 12 Rydym wedi dysgu gwersi pwysig dros y 18 mis diwethaf, ac rydym yn parhau i archwilio gwahanol ffyrdd o weithio. Ochr yn ochr â hyn, mae ansicrwydd ynghylch y llety sydd ar gael mewn cyrff a archwilir yn golygu ein bod wedi ymestyn y brydles ar ein swyddfa yng Nghaerdydd o flwyddyn i ganiatáu gwell dealltwriaeth o'n hanghenion llety mewn byd ar ôl COVID.
- 13 O ganlyniad, mae'r gwariant cyfalaf a ragwelwyd ar gyfer 2022-23 wedi'i symud i 2023-24. Disgwylir i unrhyw arbedion yn sgil gostyngiad mewn llety swyddfa gael eu cyflawni o 2024-25.

Pwysau cost

Ansawdd yr archwiliad

- 14 Mae gan adolygiadau archwilio diweddar ledled y DU² oblygiadau eang posibl i'r proffesiwn archwilio cyfan. Mae'r adolygiadau amrywiol hyn yn adlewyrchu disgwyliaid cynyddol o ran archwilio ac ansawdd yr archwiliad hwnnw.
- 15 Mewn ymateb, mae rheoleiddwyr archwilio wedi cyhoeddi safonau archwilio ac ansawdd newydd a chymhleth ar gyfer ein gwaith archwilio cyfrifon y mae angen i ni eu cyflwyno erbyn 2023. Rydym hefyd yn mabwysiadu safon ryngwladol INTOSAI³ ar gyfer ein gwaith archwilio perfformiad er mwyn sicrhau bod ein holl waith yn parhau i gael ei wneud yn unol ag arfer proffesiynol gorau.
- 16 Ar yr un pryd, mae'r ffordd y mae cyrff yn trefnu eu hunain, e.e. strwythurau partneriaeth a grwpiau newydd, yn dod â chymhlethdod ychwanegol tra ein bod hefyd yn gweld galw cynyddol am wasanaethau cyhoeddus wrth i gymdeithas geisio adfer o effeithiau pandemig COVID-19.
- 17 Mae angen i ni fuddsoddi ymhellach mewn ansawdd archwilio os ydym am ymateb i'r heriau amrywiol hyn ac rydym wedi cynyddu ein cyllideb o £230,000 y flwyddyn am y ddwy flynedd nesaf i wneud hyn.
- 18 Rydym yn gofyn i'r cyllid hwn (£80,000) gael ei ddarparu gan Gronfa Gyfunol Cymru gyda'r balans yn cael ei dalu o'r tâl ffioedd i gyrff a archwilir.

2 Adolygiad y Competition and Markets Authority; Adolygiad Kingman, ac Adolygiad Brydon

3 Mae'r International Organisation of Supreme Audit Institutions (INTOSAI) yn cyhoeddi safonau proffesiynol a chanllawiau arfer gorau ar gyfer archwilio perfformiad.

Teithio yn amser gwaith

- 19 Yn hanesyddol, disgwylir i staff Archwilio Cymru, wrth deithio i wneud gwaith archwilio yn safleoedd ein cleientiaid, wneud yr awr gyntaf o deithio yno ac yn ôl yn eu hamser eu hunain.
- 20 Mae cyfraith achosion ddiweddar wedi penderfynu bod y disgwyliad hwn yn anghyfreithlon ac y dylid cynnwys yr holl ddibenion teithio at ddibenion gwaith, ac eithrio cymudo rheolaidd, o fewn y diwrnod gwaith. Er ein bod yn disgwyl i'n gofyniad i staff deithio leihau'n sylweddol yn y dyfodol, rydym wedi cyfrifo y bydd angen i ni ddefnyddio adnoddau ychwanegol gwerth £200,000 i fynd i'r afael â'r diffyg hwn.
- 21 Unwaith eto, rydym yn gofyn i gyfran berthnasol o'r costau ychwanegol hyn gael eu talu o Gronfa Gyfunol Cymru (£70,000) a'r balans yn cael ei dalu drwy ffioedd.

Yswiriant Gwladol yn cynyddu

- 22 Ym mis Medi 2021, cyhoeddodd Llywodraeth y DU gynnydd o 1.25% mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol i weithwyr a chyflogwyr o fis Ebrill 2022.
- 23 Cyfanswm cost ychwanegol y newid hwn ar gyfer Archwilio Cymru yw £145,000, ac mae angen inni geisio cyfran berthnasol (£51,000) o Gronfa Gyfunol Cymru a'r balans yn cael ei dalu o ffioedd. Deallwn y bydd cyllid ychwanegol ar gael gan Lywodraeth y DU i sector cyhoeddus Cymru i dalu cost y cynnydd hwn.

Gwaith archwilio sy'n gysylltiedig â COVID

- 24 Rydym yn ymwybodol bod y sefydliadau cenedlaethol wedi cael cyllid ychwanegol sylweddol yn 2021-22 i fynd i'r afael â'r gwaith archwilio ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r cynnydd digynsail a heb ei gynllunio i raddau helaeth mewn gwariant cyhoeddus sy'n gysylltiedig â'r pandemig.
- 25 Hyd yma, rydym wedi llwyddo i gynnwys ein gwariant drwy ail-gwmpasu ein gwaith archwilio i fynd i'r afael â'r pwysau newydd hyn. Felly, nid ydym ar hyn o bryd yn ceisio cyllid ychwanegol ar gyfer 2022-23 i fynd i'r afael â hyn.

Cynnydd mewn cyflogau a phrisiau


- 26 Rydym wedi gwneud cyn lleied o ddarpariaeth â phosibl ar gyfer cynnydd mewn cyflogau a phrisiau yn 2023-24 ac rydym wedi tybio y bydd unrhyw bwysau cost eraill yn cael eu rheoli o fewn y cyllidebau presennol.
- 27 Fel yr hysbyswyd gan y Gweinidog dros Gyllid a Llywodraeth Leol, rydym yn ymwybodol bod yr OBR yn rhagweld cynnydd o 2.4% mewn cyflogau a phrisiau yn 2022-23 ond rydym wedi tybio nad yw hyn yn debygol o arwain at gynnydd cyflog cyfatebol yn y sector cyhoeddus.

◀ Ariannu Archwilio Cymru

Cyllid


- 28 Mae tua 35% o gostau rhedeg Archwiliad Cymru yn cael eu talu o Gronfa Gyfunol Cymru, a'r balans o 65% yn cael ei ariannu o'r ffioedd a godir am ein gwaith archwilio.
- 29 Mae **Arddangosyn 2** yn crynhoi ein gwariant a'n cyllid arfaethedig ar gyfer 2022-23 - nodir dadansoddiad manwl o'n cyllideb ar gyfer 2022-23 yn **Atodiad 1**.

Arddangosyn 2: ein gwariant a'n cyllid 2022-23



- 30 Mae **Arddangosyn 3** yn rhoi dadansoddiad o sut rydym yn bwriadu defnyddio'r cyllid hwn i gyflawni ein gwaith yn 2022-23.

Arddangosyn 3: ein defnydd o gyllid 2022-23



- 31 Ceir rhagor o fanylion am sut rydym yn defnyddio'r cyllid hwn isod.

Gwaith archwilio wedi'i ariannu gan Gronfa Gyfunol Cymru

Astudiaethau Llywodraeth Genedlaethol a Lleol

- 32 Cynhelir rhaglen yr Archwilydd Cyffredinol o astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol i roi cymorth i waith craffu'r Senedd. Caiff yr astudiaethau hyn eu hadrodd i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd (PAPAC) ac fe'u disgrifir yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2021-22.
- 33 Defnyddir yr arian hwn hefyd i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar gyfer y cyrff llywodraeth ganolog perthnasol.
- 34 Mae'r PAPAC yn un o ddulliau allweddol y Senedd o ddwyn i gyfrif y sefydliadau y mae'n eu hariannu'n uniongyrchol neu drwy Lywodraeth Cymru. Ein nod felly yw sicrhau bod y Pwyllgor yn cael cefnogaeth dda gennym yn ei waith.
- 35 Rydym wedi cynyddu'r cyllid ar gyfer y meysydd gwaith hyn ar gyfer 2022-23 yn unol â'n disgwyliadau ar gyfer cynnydd mewn cyflogau a phrisiau.

Gwaith arall sy'n gysylltiedig ag archwilio

- 36 Fel y cytunwyd yn yr Amcangyfrifon blaenorol, rydym hefyd yn defnyddio cyllid Partneriaeth Cymru i:
 - ymgymryd â darnau blynyddol o waith i archwilio themâu sy'n deillio o'n gwaith cyfrifon;
 - cyflawni'r datblygiad angenrheidiol sy'n gysylltiedig â'n gwaith archwilio perfformiad mewn Llywodraeth Leol; a
 - ymchwilio ac ymateb i faterion a ddygwyd i'n sylw gan aelodau o'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr etholedig.
- 37 Unwaith eto, rydym wedi cynyddu'r cyllid ar gyfer y meysydd gwaith hyn ar gyfer 2022-23 yn unol â'n disgwyliadau ar gyfer cynnydd mewn cyflogau a phrisiau.

Cyfraniad Cronfa Gyfunol Cymru at gostau gweithredu

- 38 Defnyddir cyllid gan Gronfa Gyfunol Cymru i dalu costau Archwilio Cymru nad ydynt yn cael eu talu drwy ffioedd i gyrff a archwilir.
- 39 Ar gyfer 2022-23, rydym wedi cymhwyso cynnydd bach o £15,000 yn unig i'r cyfraniad hwn fel effaith cynnydd posibl mewn cyflogau ar y cyllidebau hyn.

Cyllid Cronfa Gyfunol Cymru er budd ehangach y sector cyhoeddus

Datblygu sgiliau ariannol Cymru gyfan

- 40 Defnyddir cyllid gan Gronfa Gyfunol Cymru i ddarparu cymorth parhaus i'n rhaglen lwyddiannus sy'n darparu cyfleoedd i raddedigion a phrentisiaethau i fyfyrwyr o bob cwr o Gymru.
- 41 Ar hyn o bryd rydym yn cyflogi tua 60 o hyfforddeion a phrentisiaid graddedig, gan roi cyfleoedd hyfforddi o'r radd flaenaf iddynt a sicrhau cyflenwad o weithwyr cyllid proffesiynol yn y dyfodol ar gyfer sector cyhoeddus Cymru.
- 42 Rydym yn defnyddio cyllid Partneriaeth Cymru i:
 - ddarparu cyfleoedd secondiad i'n hyfforddeion graddedig mewn cyrff sector cyhoeddus eraill yng Nghymru;
 - targedu ein recriwtio i wella amrywiaeth a chynhwysiant cymdeithasol o fewn ein gweithlu a'r proffesiwn cyllid ehangach yng Nghymru; a
 - chefnogi'r costau hyfforddi ar gyfer ein rhaglen hyfforddi graddedigion, gan leihau costau a fyddai fel arall yn cael eu hadennill o ffioedd.

Cyfnwidfa Arfer Da

- 43 Rydym yn defnyddio cyllid a ddarperir gan Gronfa Gyfunol Cymru i gynnal ein rhaglen Arfer Da uchel ei pharch yn rhad ac am ddim i gyrff cyhoeddus a'r trydydd sector ledled Cymru.
- 44 Mewn ymateb i bandemig COVID-19, rydym wedi targedu adnoddau i ffwrdd o gynnal digwyddiadau dysgu a rennir ar y safle i rannu allbynnau o'n prosiect dysgu amser real sydd newydd ei sefydlu, gan gasglu arfer da cyrff cyhoeddus sy'n ymateb i'r pandemig. Mae hyn yn cael ei rannu drwy ein gwefan a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn gwneud y mwyaf o gyrraedd ein gwaith.

- 45 Rydym yn parhau i ddarparu adnoddau ar-lein, hwyluso a dysgu gweminar tra bod ein digwyddiadau yn y safle yn cael eu hatal.

Y Fenter Twyll Genedlaethol

- 46 Ers 2015, mae'r Pwyllgor Cyllid wedi cefnogi'r egwyddor o gymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol Ar gyfer pob corff cyhoeddus yng Nghymru heb unrhyw gost i'r cyrff hynny. Nododd ein hadroddiad dwy flynedd diwethaf arbedion posibl a gor-daliadau o £8 miliwn ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru, gan gynyddu arbedion cronus i £42.9 miliwn ers 1996 – elw sylweddol ar fuddsoddiad.
- 47 Heb y cyllid hwn, byddai angen trosglwyddo costau cyflawni'r gwaith hwn yn uniongyrchol i gyrff sy'n cymryd rhan fel ffioedd ychwanegol, gan arwain o bosibl at ostyngiad sylweddol yn nifer y cyrff sy'n dewis cymryd rhan.
- 48 Fel y nodwyd yn yr Amcangyfrifon blaenorol, ar gyfer 2022-23, bydd cynnydd bob yn ail flwyddyn o **£130,000** i dalu costau Swyddfa'r Cabinet ar gyfer gwirio data.
- 49 Mae'r Fenter Menter Twyll Genedlaethol yn un ledled y DU ac mae paru'r Fenter Menter Twyll Genedlaethol yn gweithredu ar sail gyffredin i raddau helaeth ar draws pedair gwlad y DU. Fodd bynnag, mae ymwahanu polisi wedi arwain at angen cynyddol i ddatblygu paru data i fynd i'r afael â risgiau twyll sy'n benodol i Gymru. Mae hyn yn cynnwys cynllunio dulliau paru data i fynd i'r afael â'r risgiau hyn a datblygu'r offer dadansoddi data i nodi trafodion sydd â risg uchel o dwyll. Rydym yn cynnig dylunio a chynnal un ymarfer paru data twyll sy'n benodol i Gymru bob blwyddyn.
- 50 Mae Tîm Menter Twyll Genedlaethol y DU wedi datblygu cynhyrchion paru data i alluogi cyrff cyhoeddus i gynnal gwiriadau dilysu banc a statws masnachu ar sefydliadau sydd wedi gwneud cais am gyllid grant. Mae'r cynhyrchion hyn wedi cael eu treialu gan nifer o awdurdodau lleol ledled y DU i wirio cymhwysedd sefydliadau sy'n derbyn cyllid cymorth busnes COVID-19.
- 51 Mae'r cynlluniau treialu hyn wedi bod yn llwyddiannus ac wedi helpu i ganfod nifer uchel o geisiadau twyllodrus neu wallus. Mae'r cynhyrchion yn defnyddio gwybodaeth a ddarperir drwy asiantaeth cyfeirio credyd i lywio'r gemau data. Sefydliadau masnachol yw asiantaethau cyfeirio credyd ac felly maent yn codi tâl am gael mynediad at y data sydd ganddynt. O ganlyniad, bydd darparu'r cynhyrchion dilysu banc a statws masnachu i gyrff cyhoeddus yng Nghymru yn arwain at gostau ychwanegol.
- 52 Rydym yn cynnig sicrhau bod y cynhyrchion hyn ar gael am gyfnod o flwyddyn. Byddem wedyn yn adolygu defnydd a chanlyniadau'r cynhyrchion i benderfynu a oes gwerth yn eu defnydd parhaus.

- 53 Y gost i Archwilio Cymru o'r gwaith ychwanegol hwn fydd £80,000 yn 2022-23 ac rydym yn chwilio am gyllid ychwanegol gan Gronfa Gyfunol Cymru i gefnogi hyn. Rhagwelwn y bydd hyn yn arwain at ganfod twyll sydd werth miliynau lawer o bunnoedd, gan roi elw sylweddol iawn ar fuddsoddiad.

Gwaith archwilio wedi'i ariannu o ffioedd

- 54 Fel y dangosir yn **Arddangosyn 2**, mae tua 65% o'r cyllid ar gyfer Archwilio Cymru yn dod o'r ffioedd a godwn ar gyrff a archwilir. Mae'n ofynnol yn ôl deddfwriaeth i ni godi 'dim mwy na chost lawn' y gwaith archwilio ym mhob corff a archwilir. Rydym yn cyfrifo'r gost lawn hon yn seiliedig ar ein cyllideb ar gyfer y flwyddyn a chyfraniad Cronfa Gyfunol Cymru tuag at ein costau rhedeg ac ar gyfer y gwaith archwilio hwnnw a ariennir gan Gronfa Gyfunol Cymru.
- 55 Felly, mae perthynas uniongyrchol rhwng yr Amcangyfrif hwn a'r ffioedd yr ydym yn eu codi i'n gyrff a archwilir.

Ein hincwm ffioedd 2022-23

- 56 Mae ein cyllideb ar gyfer 2022-23 (gweler **Atodiad 1**) yn gofyn am gynnydd o 4.3% yn yr incwm ffioedd yn amodol ar gymeradwyo'r Amcangyfrif hwn.
- 57 Mae angen y cynnydd hwn i ariannu'r buddsoddiad ychwanegol mewn Ansawdd Archwilio a'r gofyniad cyfreithiol i'n staff deithio at ddibenion busnes mewn amser gwaith yn ogystal â'r cynnydd disgwylid mewn cyflogau a phrisiau a'r cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr.
- 58 Fel yn achos 2021-22, byddwn yn ymgynghori'n eang ar ein ffioedd arfaethedig pan fydd y Pwyllgor Cyllid wedi ystyried yr Amcangyfrif hwn ac yna'n gosod ein Cynllun Ffioedd ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor Cyllid yn gynnar yn 2022.

Buddsoddiad cyfalaf yn Archwilio Cymru

- 59 Nodir ein blaenoriaethau buddsoddi cyfalaf ar gyfer 2021-22 i 2025-26 yn **Arddangosyn 4**.
- 60 Mae buddsoddiad cyfalaf wedi'i dargedu at brosiectau a fydd yn sicrhau arbedion effeithlonrwydd ac arbedion yn y dyfodol; sicrhau bod ein darpariaeth TGCh yn gwneud y defnydd gorau o'r dechnoleg sydd ar gael a bod ein gweithleoedd yn bodloni ein gofynion newidiol mewn byd ar ôl COVID-19

Arddangosyn 4: buddsoddiad cyfalaf 2021-22 i 2025-26

	2021-22 £'000	2022-23 £'000	2023-24 £'000	2024-25 £'000	2025-26 £'000
Rhaglen Newid	200	200	650	400	400
Strategaeth TGCh	150	110	110	110	110
Cyfanswm	350	310	760	510	510

Ein Rhaglen Newid

- 61 Fel y cyfeiriwyd uchod, rydym wedi sefydlu rhaglen newid trawsnewidiol o fewn Archwilio Cymru i reoli prosiectau newid sydd ar y gweill yn effeithiol. Bydd angen buddsoddiad cyfalaf ar rai o'r rhain fel y nodir isod.

Gweithleoedd yn y dyfodol

- 62 Bydd y prydlesi ar ein tri adeilad swyddfa yng Nghaerdydd, Abertawe ac Abergele yn cael eu hadnewyddu neu'n dod i ben dros y blynyddoedd nesaf. Mae ein rhaglen gyfalaf yn rhoi syniad cynnar o'r costau amcangyfrifedig sy'n gysylltiedig â symudiadau posibl ac fel y cytunwyd gyda'r Pwyllgor Cyllid ym mis Tachwedd 2019, byddwn yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor wrth i'n gwaith fynd rhagddo, a gallwn gadarnhau costau.
- 63 Mae gofyniad posibl hefyd am gyllid adnoddau ychwanegol nad yw'n arian parod i ganiatáu ar gyfer effaith Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 (IFRS 16) ar unrhyw ymrwymadau prydles newydd. Ni ellir amcangyfrif hyn ar hyn o bryd.

- 64 Bydd yr oedi yn y prosiect hwn yn ein galluogi i ystyried ein gofynion swyddfa yn y dyfodol, yn enwedig yng ngoleuni gostyngiad disgwylidig yn nifer yr ystafelloedd archwilio sydd ar gael i ni ar safleoedd cleientiaid. Mae'n bosibl na fyddwn yn gallu gwireddu'r arbedion a ragwelwyd yn flaenorol, os oes rhaid i ni ddarparu ar gyfer mwy o'n staff harchwilio yn ein swyddfeydd ein hunain.
- 65 Mae'n anodd amcangyfrif costau ar hyn o bryd, ond rydym yn parhau i ragweld gofyniad buddsoddi ar gyfer 2023-24 fel y nodir yn **Arddangosyn 5**.

Ein Strategaeth Ddigidol

- 66 Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn offer digidol i sicrhau y gallwn gyflawni ein gwaith mor effeithlon ac effeithiol â phosibl. Mae'r buddsoddiad a gynlluniwyd ar gyfer 2022-23 yn cynnwys:
- cwblhau'r gwaith o ddatblygu meddalwedd platfform archwilio newydd ar gyfer ein gwaith archwilio Ariannol a Pherfformiad; a
 - y bwriad i ddatblygu offer ansawdd archwilio awtomataidd i sicrhau ein bod yn parhau i fodloni gofynion ansawdd archwilio llym.

Ein Strategaeth TGCh

- 67 Rydym wedi sefydlu rhaglen dreigl o adnewyddu offer cyfrifiadur/TG i sicrhau parhad busnes a bod offer yn parhau i fod yn addas i'r diben ac yn ddibynadwy. Mae hyn hefyd wedi ein galluogi i drosglwyddo'n ddi-dor i weithio gartref yn ystod y pandemig.
- 68 Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn offer i ganiatáu i fwy o'n staff weithio o bell mewn byd ar ôl COVID-19. Mae cysylltiad agos rhwng y buddsoddiad hwn a'n prosiect Gweithleoedd yn y Dyfodol.



Newidiadau posibl i'r gyllideb hon

Chwyddiant cyflogau a phrisiau

- 69 Yn unol â'r canllawiau a gafwyd gan y Gweinidog dros Gyllid a Llywodraeth Leol, dim ond ychydig iawn o ddarpariaeth a wnaethom ar gyfer cynnydd mewn cyflogau a phrisiau yn 2022-23.
- 70 Os yw pwysau chwyddiant yn sylweddol uwch na rhagfynegiadau'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, yna efallai na fydd y sefyllfa hon yn gynaliadwy o ran ein gallu i ddenu a chadw staff, a gallai fod yn angenrheidiol inni ailedrych ar hyn gyda'r Pwyllgor Cyllid.

Recriwtio a chadw staff

- 71 Mae prinder cynyddol o weithwyr archwilio proffesiynol ledled y DU yn rhannol mewn ymateb i'r gofynion ansawdd uwch sy'n cael eu rhoi ar archwiliad corfforaethol a'r sector cyhoeddus.
- 72 Mae ein rhaglen hyfforddi graddedigion a phrentisiaethau wedi rhoi rhywfaint o amddiffyniad i ni o'r pwysau hwn hyd yma. Fodd bynnag, rydym yn dechrau profi lefelau uchel o drosiant staff gan fod ein staff yn gallu denu cyflogau uwch mewn mannau eraill.
- 73 Os bydd y duedd hon yn parhau, efallai y bydd angen i ni adolygu ein strategaeth cyflog a gwobrwyo yn ystod 2022-23.

Teithio a chynhaliaeth

- 74 Fel y nodwyd yn gynharach, nid yw ein cyllideb arfaethedig ar gyfer 2022-23 ar hyn o bryd yn gwneud unrhyw ragdybiaethau ynghylch gostyngiad posibl mewn costau teithio os bydd staff yn dewis derbyn y taliad ymlaen llaw arfaethedig yn lle lwfans teithio yn ddiweddarach eleni. Er enghraifft, os bydd 50% o'r staff yn dewis derbyn y taliad ymlaen llaw, byddem yn disgwyl i'n costau yn 2022-23 ostwng tua £300,000.
- 75 Byddai unrhyw danwariant yn deillio o hynny yn 2022-23 yn cael ei ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru; os yw'r effaith yn debygol o fod yn sylweddol yna byddwn yn cyflwyno Amcangyfrif Atodol yn y flwyddyn i adlewyrchu hyn.

Incwm o ffioedd

- 76 Mae ansicrwydd sylweddol yn ein hamcangyfrifon ar gyfer faint o waith archwilio y bydd ei angen yn 2022-23, ac efallai y bydd angen inni ddychwelyd at y Pwyllgor Cyllid i addasu faint o adnoddau cronus y gallwn eu defnyddio os yw'r gwaith sydd ei angen yn cynnwys ein disgwyliadau presennol.

Safonau adrodd newydd

- 77 Mae IFRS 16 ar gyfrif am brydlesi i'w gyflwyno o 2022-23.
- 78 Nid yw effaith cyfrifo ar gyfer dibrisiant a llog sy'n gysylltiedig â chyfalafu prydlesi presennol o'i gymharu â chostau rhedeg blynyddol y prydlesi hynny yn arwyddocaol i Archwilio Cymru, oherwydd yr amser byr sy'n weddill ar ein prydlesi eiddo. Felly, nid oes angen unrhyw addasiad i'n cyllideb ar gyfer y newid hwn yn 2022-23.
- 79 Efallai y bydd newid i'n gofyniad gwariant cyfalaf yn 2023-24, fel y dangosir yn **Arddangosyn 4**, os ymrwymwn i drefniant prydles newydd. Nid yw'n bosibl amcangyfrif yr effaith hon ar hyn o bryd.

Ystyriaethau y dyfodol

Gwaith Archwilio Perfformiad Lleol

- 80 Fel rhan o'n strategaeth pum mlynedd sy'n dod i'r amlwg i gefnogi ein huchelgais i "fanteisio'n llawn ar ein persbectif, ein harbenigedd a'n dyfnder mewnwelediad unigryw", byddwn yn gofyn i'r Pwyllgor Cyllid newid y cyllid ar gyfer rhywfaint o'n gwaith archwilio perfformiad mewn Llywodraeth Leol ac lechyd o ffi i gyllid Cronfa Gyfunol Cymru yn ein Hamcangyfrif ar gyfer 2023-24.
- 81 Mae elfennau'r ffi yr ydym yn ceisio eu symud i Gronfa Gyfunol Cymru yn ymwneud â darparu adolygiadau "thematig" neu bwnc penodol sydd fel arfer yn cynnwys gwaith archwilio ar draws nifer o gyrff a archwilir – gallai'r gwaith hwn fod ar lefel Cymru gyfan a/neu ranbarthol, yn aml gyda pwyslais traws-sector neu system gyfan; rydym hefyd yn tueddu i fod eisiau edrych ar faterion fel arweinyddiaeth system Llywodraeth Cymru ar y thema benodol yr ydym yn eu harchwilio, na ellir eu hariannu o'r ffi.
- 82 Gall y ffordd yr ydym yn ariannu'r mathau hyn o adolygiadau hefyd arwain at rywfaint o anhyblygrwydd yn y ffordd yr ydym yn lledaenu ein canfyddiadau; gyda phob corff unigol a archwilir yn cyfrannu rhywbeth o'u ffi, mae disgwyliad dealladwy y bydd rhyw fath o allbwn penodol ar gyfer y corff unigol a archwilir hwnnw o'r gwaith – mae adegau lle byddwn am wneud hynny ond hefyd adegau lle gallwn ddewis cael ystod wahanol o allbynnau o'r adolygiad nad ydynt efallai'n canolbwyntio'n lleol a byddai'n dda cael yr hyblygrwydd i ddewis yr allbynnau mwyaf priodol ym mhob achos.
- 83 Rydym yn gweld darnau o waith o'r fath yn allweddol wrth ychwanegu gwerth at ein cyfundrefn archwilio gyda'u gallu i roi barn system gyfan, gan helpu i wella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i drethdalwyr, a hefyd helpu i gyflawni uchelgais Llywodraeth Cymru o 'Un Sector Cyhoeddus' – bydd gwneud eu cyflawni mor hyblyg ac effeithlon â phosibl yn helpu i gyflawni'r nodau hyn.

- 84 Ar hyn o bryd, pan fyddwn yn cyflawni'r darnau hyn o waith, rydym yn cymryd cyfran o'r ffi archwilio gan yr holl gyrff archwiliatedig perthnasol i lunio cyllideb gyffredinol y prosiect, a lle rydym am edrych ar rôl Llywodraeth Cymru yn y pwnc yr ydym yn ei archwilio, mae angen i ni hefyd ychwanegu cyllid Cronfa Gyfunol Cymru ar wahân i gwmpasu hynny; yna mae angen i ni greu nifer o godau amser i archwilwyr eu defnyddio sy'n adlewyrchu'r gwaith amrywiol mewn gwahanol gyrff archwiliatedig sy'n ymwneud ag adolygu.
- 85 Mae hyn yn creu cymhlethdod trafodiadol sylweddol wrth gynllunio'r darnau hyn o waith ac yn codi'r amser yn ôl i gyrff archwiliatedig unigol; yn ogystal, mae'r gofyniad o fewn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 i 'godi dim mwy na'r gost lawn' yn golygu bod yn rhaid i ni fod yn ofalus nad oes croes-sybsideiddio o un corff i'r llall pan fyddwn yn cyfuno cyllidebau ar draws gyrff a archwilir i ariannu'r gwaith o ddatblygu, dylunio a chyflwyno prosiectau o'r fath.
- 86 Rydym wedi trafod y dull hwn gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, ac maent yn cefnogi ein cynnig yn gyffredinol a byddem yn barod i wneud yr addasiadau angenrheidiol i ddyraniadau cyllid i gyrff a archwilir fel bod yr alwad gyffredinol ar Gronfa Gyfunol Cymru yn cael ei chadw'n ddi-niwed.
- 87 Byddwn hefyd yn trafod y dull hwn gyda'r gyrff archwiliatedig yr effeithir arnynt dros y misoedd nesaf a byddem yn croesawu barn y Pwyllgor Cyllid ynghylch a yw'r newid hwn yn rhywbeth y byddent yn barod i'w gefnogi mewn Amcangyfrif yn y dyfodol.

Atodiadau



1 Cyllideb refeniw 2022-23

1 Cyllideb refeniw 2022-23

	Amcangyfrif 2022-23 £'000	Amcangyfrif 2021-22 £'000	Cynnydd/ (Gostyngiad) £'000	
Treuliau	Costau staff	18,932	18,214	718
	Rheoli swyddi gwag	(939)	(911)	(28)
	Staff contract tymor byr	579	311	268
	Lwfans teithio	746	746	–
	Teithio a chynhaliaeth	246	257	(11)
	Llety	976	964	12
	TAW anadferadwy	500	500	–
	TGCh	633	602	31
	Llywodraethu Archwilio Cymru	300	295	5
	Hyfforddiant allanol	278	278	–
	Cyfieithu	120	120	–
	Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol	374	222	152
	Dibrisiad	280	280	–
	Cyflenwadau a gwasanaethau eraill	595	731	(136)
	Targed arbedion	(500)	(400)	(100)
CYFANSWM	23,120	22,209	911	
Y Fenter Twyll Genedlaethol	260	50	210	
Cyfanswm treuliau	23,380	22,259	1,121	
Incwm	Ffioedd Archwilio	13,619	13,021	584
	Archwiliad Cronfeydd Amaethyddol yr UE	650	650	–
	Ffioedd ardystio grantiau	813	790	23
	CYFANSWM INCWM	15,082	14,461	621
	Cyfanswm i'w ariannu o Gronfa Gyfunol Cymru	8,298	7,798	500



Audit Wales

24 Cathedral Road

Cardiff

CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in
Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales